**Polisi Diogelu Data | Data Protection Policy**

**Datganiad Polisi**

Mae Ymddiriedolwyr Noddfa Llŷn wedi ymrwymo i sicrhau bod yr eglwys yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018.

Alun Rennolf sy'n goruchwylio proses Diogelu Data Noddfa Llŷn. Dylai unrhyw gwestiynau sy'n codi mewn perthynas â materion Diogelu Data gael eu cyfeirio at Alun Rennolf yn y lle cyntaf.

Mae'r polisi hwn yn pennu'r mesurau yr ydym wedi ymrwymo i'w rhoi ar waith fel eglwys, ynghyd â'r modd yr ydym yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn seiliedig ar wyth egwyddor, sy'n datgan bod yn rhaid i ddata personol:

- gael eu prosesu mewn modd teg a chyfreithlon
- cael eu casglu at ddibenion penodol a chyfreithlon yn unig
- bod yn ddigonol, yn berthnasol, a pheidio â bod yn ormodol
- bod yn gywir, a chael eu cadw'n gyfredol
- peidio â chael eu cadw am gyfnod mwy na'r angen
- cael eu prosesu yn unol â hawliau gwrthrychau'r data
- cael eu cadw'n ddiogel
- cael eu diogelu'n briodol wrth gael eu trosglwyddo dramor

**Policy Statement**

The Trustees of Noddfa Llŷn are committed to ensuring that the church complies with the legal requirements of the Data Protection Act 1998 and General Data Protection Regulations 2018.

Alun Rennolf oversees Data Protection for Noddfa Llŷn. Any questions that arise in relation to Data Protection issues should in the first instance be referred to Alun Rennolf

This policy sets out the measures that we are committed to taking as a church and how we comply with the relevant legislation.

The Data Protection Act is underpinned by eight principles which state that personal data:

- must be processed fairly and lawfully
- must be obtained only for specified and lawful purposes
- must be adequate, relevant and not excessive
- must be accurate and kept up to date
- must not be held for any longer than necessary
- must be processed in accordance with the rights of the data subjects
- must be held securely
- must be properly protected when transferred overseas

**Pam y mae hyn yn bwysig?**

Mae'r polisi hwn yn bwysig gan ein bod wedi ymrwymo i atal data personol rhag mynd i'r dwylo anghywir o ganlyniad i ddiogelwch gwael, neu rhag cael eu rhannu'n ddiofal neu fod yn anghywir, a hynny am ein bod yn ymwybodol y gallai pobl deimlo'n ofidus neu gael eu niweidio pe byddai unrhyw rai o'r pethau hyn yn digwydd.

**Why is this important?**

This policy is important as we are committed to protecting personal data getting into the wrong hands as a result of poor security or being shared carelessly or being inaccurate as we are aware that people can be upset or harmed if any of these things happen.

**Beth yw'r sail gyfreithiol dros brosesu gwybodaeth bersonol?**

Rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol ar ran aelodau, gweithwyr a chyfeillion Eglwys Penuel ac eraill mewn cysylltiad â gweithgareddau'r eglwys, a hynny ar y sail ganlynol:

- Rhwymedigaeth Gyfreithiol (e.e. prosesu Rhodd Gymorth neu wybodaeth Diogelu.)
- Contract (e.e. gosod neuadd yr eglwys i unigolion a grwpiau.)
- Diddordeb Cyfreithlon (gweinyddiaeth reolaidd yr eglwys, er enghraifft cyhoeddi cofrestrau aelodaeth i'w defnyddio'n fewnol, rotâu, nodiadau bugeiliol, ac ati.)
- Cydsyniad (Os nad oes gennym reswm cyfreithiol, cytundebol neu gyfreithlon dros gadw neu ddefnyddio data personol, yna byddwn yn gofyn am gydsyniad yr unigolyn dan sylw i brosesu ei ddata.)

**What is the legal basis for processing personal information?**

We process personal information on behalf of the members, employees and friends of Penuel Church and others in connection with the activities of the church on the following bases:

- Legal Obligation (e.g. processing Gift Aid or Safeguarding.)
- Contract (e.g. letting out the church hall to individuals and groups.)
- Legitimate Interest (routine church administration, such as publishing membership rolls for internal use, rotas, pastoral notes, etc.)
- Consent (If we do not have legal, contractual or legitimate reason for processing personal data then we will seek to obtain consent from the individual whose data we wish to process.)

**Pam yr ydym yn prosesu data personol?**

Rydym yn prosesu data personol er mwyn ein helpu i wneud y canlynol:

- cynnal ein rhestr o aelodau'r eglwys
- talu cyflog ein Gweinidog
- darparu cymorth bugeiliol
- darparu gwasanaethau i'r gymuned
- diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg

**Why do we process personal data?**

We process personal data to help us:

- maintain our list of church members
- pay our Minister's stipend
- provide pastoral support
- provide services to the community
- safeguard children, young people and at risk adults

**Hysbysiad Preifatrwydd**

Yn unol â'r polisi hwn, rydym hefyd wedi mabwysiadu hysbysiad preifatrywdd sy'n pennu pa wybodaeth yr ydym yn ei chadw, sut yr ydym yn storio'r wybodaeth honno, a sut y mae'r wybodaeth honno'n cael ei phrosesu, ynghyd â'r sail gyfreithiol dros wneud hynny.

**Privacy Notice**

In accordance with this policy, we have also adopted a Privacy Notice which sets out what information we hold, how we store that information and how that information is processed along with the legal basis for doing so.